

Y broses o adnabod

“Hyfforddaff di a’th ddysgu yn y ffordd a gymeri.” (adn.8)

Beth am ddarllen Salm 32:1–11 ac yna myfyrio

Caiff rhai Cristnogion drafferth derbyn y syniad bod eu bywydau yn cynnwys stori. Rhai blynyddoedd yn ôl, yn ystod sesiwn gynghori, fe geisiais gyfleu y syniad i un wraig, a oedd yn dioddef yn sgil trafferthion yn ei bywyd, bod yna stori ryfeddol yn cael ei hysgrifennu trwy’r cyfan i gyd. Allai hi ddim, fodd bynnag, gredu bod hynny’n wir. “Dydy ’mywyd i’n ddim mwy na chyfres o ddigwyddiadau damweiniol,” oedd ei hymateb, “heb unrhyw arlliw o synnwyr na chynllun.” Er imi geisio dweud rhagor wrthi hi, doedd hi ddim am wrando ac fe adawodd y stafell gynghori gan fwmian wrthi ei hun: “Fedra’i mo’i gredu o ... fedra’i mo i gredu o ... fedra’i mo i gredu o.”

Wedi llawer o bendroni pam fod rhai Cristnogion yn ei chael hi’n anodd i dderbyn y syniad o stori, rwyf wedi penderfynu bod yna nifer o resymau. Mae a wnelo’r rheswm cyntaf, mi dybiaf, â theimladau o hunanymwrthodiad. Mae hi’n rhyfeddol faint o bobl sydd yn mynd trwy’u bywydau yn gwrthod eu hunain. Ddaru nhw erioed deimlo eu bod yn cael eu derbyn gan y rhai a’u magodd nhw, a chan gredu nad ydyn nhw’n deilwng o dderbyniad maen nhw’n meithrin synnwyr o hunangasineb a hunanymwrthodiad. Allan nhw ddim credu y gallai unrhyw fod dynol gymryd diddordeb ynddyn nhw, heb sôn am Dduw ei hun.

Fe ddiffinia C.S. Lewis yr hyn yw gweddi yn ei lyfr *Letters to Malcolm Chiefly on Prayer*, fel hyn: “Fe olyga gweddi gymryd rhan yn y broses o gael ein hadnabod mewn dyfnder.” Dyna ddweud mawr a thrylwyr. Mae Duw yn gwybod pob dim am eliffant, ond dydy’r eliffant ddim yn gallu ymuno yn y broses o gael ei adnabod. Dim ond person wedi ei wneud ar lun a delw Duw all wneud hynny. Ceir eraill na allan nhw ymuno’n llawen yn y broses o gael eu hadnabod, oherwydd maen nhw’n siŵr, os cân nhw eu hadnabod mewn dyfnder, y byddan nhw’n cael eu gwrthod. Maen nhw’n byw gyda’r ofn o fod yn gwbl annheilwng o sylw. Rwyf innau’n dweud, gyda’r holl argyhoeddiad sydd ynof i, nad ydy Duw yn edrych ar neb yn y ffordd yna. Neb o gwbl.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 1:45–51;

Heb. 2:10–11; 2:17–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddaru Nathanael ymateb i’r ffaith bod Iesu yn gwybod y cyfan amdano?
2. Pam allwn ni fod yn sicr bod Duw yn ein hadnabod yn drwyadl?

Gweddi O Dad, dyma syniad sy’n fy nghyffroi eto: y gallaf ymuno yn y broses o gael f’adnabod. O’r fath gyfaill wyt ti i mi; rwyt ti’n gwybod y cyfan sydd i’w wybod amdanaf i ac eto’n fy ngharu er gwaethaf y cyfan. Diolch iti fy Nhadau. Amen.